

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 10fed Gorffennaf, 2018 am 7.30pm yn Neuadd Felinfach.

PRESENNOL

Cynghorwyr : Haf Hughes (Cadeirydd), Lynford Thomas, Gerwyn Owen, Johnny Davies, Harry Williams, Lyn Williams, Alan Henson, Glyn Davies, Daniel Evans, Hywel Ifans,

1. PERSONOL

Llongyfarchwyd Y Cyng. Gerwyn Owen a'i briod Glenys ar achlysur eu Priodas Aur.

2. YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Owen Llywelyn

3. DATGELU BUDDION PERSONOL

Dim i'w datgelu

4. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 12fed Mehefin 2018 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Johnny Davies ac eilwyd gan Y Cyng. Alan Henson.

5. MATERION YN CODI

13.ii. Bydd Keith Jones yn peinto 'bus shelter' Felinfach yn ystod gwylie'r haf.

13.iv Cadarnhaodd y Cyng. Lynford Thomas fod goleuadau'r ysgol bellach wedi'u cywiro.

6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am y digwyddiadau amrywiol bu'n mynychu yn ystod y mis a nododd yn arbennig ei falchder o weld llwyddiant bobol ifanc y Dyffryn yn ei ymweliadau â gwahanol sefydliadau ar draws y Sir.

7. CYLLID

i. Cafwyd adroddiad gan y Clerc am drafferthion diweddarau manylion cyswllt y cyfrif banc. Yn sgil llythyr a anfonwyd i dynnu sylw at y sefyllfa, talwyd iawndal o £200 i gyfrif y Cyngor.

ii. Derbyniwyd anfoneb o £408 (yn cynnwys TAW £68) gan Alan Edwards (D.E. Developments Ltd) am adnewyddu'r hysbysfyrdau yn Felinfach, Ystrad, Cribyn a Dihewyd. Cytunwyd ei dalu.

iii. Fel rhan o reolau newydd GDPR mae'n rhaid i'r Cyngor gofrestru gyda'r ICO ar gost o £60.00. Cytunwyd ei dalu.

8. GOHEBIAETH

- i. Derbyniwyd llythron diolch am nawdd wrth:
 - a. Gofal Mewn Galar £50
 - b. Ambiwlans Awyr Cymru £50.00
 - c. Bopath £50.00
 - ch. Teenage Cancer Trust £75.00
 - d. CFFI Ceredigion £200

ii Trafodwyd llythyr a dderbyniwyd gan Dylan a Sian Tandy o Fethania yn gofyn am gefnogaeth i'w cais i adeiladu tŷ yn Nihewyd. **Penderfynwyd** cefnogi'r cais mewn egwyddor ac i anfon llythyr atynt i'r perwyl hynny (gyda chopi i'r Cyng. Lynford Thomas yn ei rôl fel Cynghorydd Sir) fel eu bod yn gallu ei ddefnyddio fel tystiolaeth wrth iddynt fynd trwy'r broses gynllunio. Cynigiwyd gan Y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Johnny Davies a derbyniwyd yn unfrydol.

9. CYNLLUNIO

Dim ceisiadau wedi dod i law.

10. UNRHYW FATER ARALL

- i. Nododd Y Cyng. Lyn Williams bod cerrig mân rhydd ar yr hewl trwy Gribyn yn creu trafferthion. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran Y Priffyrdd i drefnu 'sweeper'.
- ii. Tynnodd Y Cyng Alan Henson sylw at y ffaith bod platar y wal lle bu'r cofgolofn yng Nghribyn yn mathru a chwympo'n rhydd ar yr hewl dop (B4337). Oherwydd y perygl posib, **penderfynwyd** gwneud cais i Adran y Priffyrdd i'w hadfer.
- iii. Soniodd y Cyng. Glyn Davies am dyllau ar yr hewl yn sawl man yn Felinfach sydd yn gwaethygu wrth iddynt suddo ymhellach i'r hewl. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd gan nodi'r manau canlynol: penhewl Lloyd Jack/wrth y Neuadd, Bryngole a sgwaryn peryglus ar ganol hewl Brynog.
- iv. Gofynnodd Y Cyng. Johnny Davies pe bae modd cysylltu g Adran y Priffyrdd unwaith eto i dynnu sylw at y ffaith fod y draen ar yr hewl wrth Arfryn, Dihewyd dal yn gorlifo pan fydd hi'n bwrw glaw. Mae hwn yn broblem barhaus ac er i'r draen gael ei chlirio yn y gorffennol nid yw'n datrys y broblem sylfaenol sef nad yw'r sianel yn ddigonol i ymdopi â'r llaid sy'n mynd iddo. Penderfynwyd cysylltu eto ag Adran y Priffyrdd i dynnu sylw at y broblem.

11. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fawrth, 11eg Medi, 2018 yn Ysgol Cribyn

